



Dogfen Reoleiddio
POLISIAU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Polisi Cydnabod

Hydref 2016

Rheoli fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn (1) hon o Bolisi Cydnabod Cymwysterau Cymru ar 12 Hydref 2016 gan y Bwrdd Rheoli.

Mae adran 47(1)(a) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru (y cyfeirir ato wedi hynny fel 'ni') lunio datganiad polisi mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu. Mae'n rhaid i'r datganiad polisi gynnwys gwybodaeth am yr amgylchiadau lle mae cydnabod corff dyfarnu yn debygol o fod yn ddarostyngedig i amod arbennig.

Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu datganiadau polisi, ac os bydd o'r farn ei bod yn briodol, o ganlyniad i adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon bob blwyddyn. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal erbyn 24 Hydref 2017 fan bellaf. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org.

Egwyddorion Cyffredinol y Polisi Cydnabod

Efallai y bydd y polisi hwn o ddiddordeb arbennig i gyrff dyfarnu, yn ogystal â phawb sy'n defnyddio cymwysterau yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Os ydych yn gorff sydd am wneud cais i Cymwysterau Cymru i ddod yn gorff dyfarnu cydnabyddedig ac i gael ei gymwysterau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru, mae'r polisi hwn yn nodi'r ffordd y byddwn yn cydnabod cyrff dyfarnu.

Mae'r Ddeddf yn rhoi i Cymwysterau Cymru y pŵer i gydnabod cyrff dyfarnu o dan adran 4 o'r Ddeddf (Cydnabod cyrff dyfarnu). Mae'r polisi hwn yn egluro sut mae Cymwysterau Cymru yn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â chydnabod cyrff dyfarnu.

Nod y polisi hwn yw egluro'r canlynol:

- ein gofynion o ran cydnabod cyrff dyfarnu
- pam rydym yn llunio meini prawf a rheolau ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu
- yr amgylchiadau lle y gellir ildio cydnabyddiaeth neu ei thynnu'n ôl

CYNNWYS

CYDNABOD CORFF DYFARNU

PARHAU I GYDNABOD CYRFF DYFARNU

ILDIO CYDNABYDDIAETH NEU EI THYNNU'N ÔL

DOGFENNAU PERTHNASOL

Cydnabod Corff Dyfarnu

Gall cyrff dyfarnu wneud cais o dan adran 8 o'r Ddeddf (Cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol) i gael eu cydnabod yn gyffredinol fel corff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru. Gall cyrff dyfarnu sy'n awyddus i gael eu cydnabod wneud cais gan ddefnyddio'r broses a nodir yn y ddogfen ganlynol [yma](#).

Meini Prawf ar gyfer Cydnabod Corff

Gallwn bennu a chyhoeddi meini prawf cydnabod i'w defnyddio at ddiben cydnabod cyrff dyfarnu, fel y nodir o dan adran 5 o'r Ddeddf (Dyletswydd i bennu meini prawf cydnabod cyffredinol). Gall y dystiolaeth a ystyrir gennym wrth benderfynu a ddylid cydnabod corff dyfarnu gynnwys tystiolaeth a gyflwynir gan y corff dyfarnu i reoleiddwyr eraill.

Gall y meini prawf cydnabod cyffredinol wneud darpariaeth wahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o gorff dyfarnu. Nodir y meini prawf cydnabod cyffredinol mewn dogfen reoleiddio ar wahân ac maent ar gael [yma](#).

Meini prawf cydnabod cymhwyster-benodol

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn pennu a chyhoeddi meini prawf cydnabod cymhwyster-benodol yn y dyfodol, o dan adran 6 o'r Ddeddf (y pŵer i bennu meini prawf cymhwyster-benodol) a all wneud darpariaeth wahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o gorff dyfarnu neu gymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymwysterau. Gallwn gydnabod corff dyfarnu ar y ddwy sail ganlynol:

- Os bydd corff dyfarnu yn bodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol a gyhoeddwyd o dan adran 5;
- Os na fydd corff dyfarnu yn bodloni pob un o'r meini prawf cydnabod cyffredinol o dan adran 5 ond ein bod o'r farn ei bod yn briodol ei gydnabod fel arall.

Os na fydd y corff dyfarnu yn bodloni pob un o'r meini prawf cydnabod cyffredinol, byddwn yn ystyried y canlynol wrth benderfynu a ddylid cydnabod y corff dyfarnu:

- a yw'r corff yn bodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol i raddau helaeth
- effaith ei fethiant i fodloni'r meini prawf hynny yn llawn
- pa mor debygol ydyw y bydd yn bodloni'r meini prawf yn llawn ar ôl hynny.

Er enghraifft, os na fydd corff dyfarnu wedi bodloni'r meini prawf ond bod tystiolaeth i ddangos y cânt eu bodloni o fewn cyfnod penodol o amser a bod camau wedi'u

cymryd i liniaru hyn, byddwn yn ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid ei gydnabod. Hefyd, efallai y bydd amgylchiadau lle mae'r corff dyfarnu yn annhebygol o fodloni'r meini prawf ond mae rheswm priodol dros ei gydnabod.

Os gwrthodir cais am gydnabyddiaeth, byddwn yn hysbysu ymgeiswyr aflwyddiannus am y rhesymau dros wrthod eu cydnabod. Gall ymgeiswyr ailgyflwyno eu cais am gydnabyddiaeth. Os bydd ymgeiswyr am apelio yn erbyn penderfyniad, gallant gymryd y camau a nodir yn ein Polisi Apeliadau Rheoliadol.

Os bydd corff dyfarnu wedi gwneud cais am gydnabyddiaeth gyffredinol, caiff ei gydnabod am yr holl gymwysterau a gynigir ganddo oni fydd yn nodi'n glir nad yw am i gymwysterau penodol neu ddisgrifiadau penodol o gymwysterau gael eu cynnwys. Gall y corff dyfarnu nodi yn ei gais gymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster nad yw am gael ei gydnabod mewn perthynas â'i ddyfarnu. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu cydnabod i gynnig yr holl gymwysterau a disgrifiadau o gymwysterau oni fydd y naill neu'r llall (neu'r ddau) o'r canlynol yn gymwys:

- maent wedi nodi nad ydynt am i gymwysterau penodol a/neu ddisgrifiadau penodol o gymwysterau gael eu cynnwys;
- nid ydynt wedi llwyddo i fodloni (neu nid ydynt wedi gwneud cais i fodloni) unrhyw feini prawf cymhwyster-benodol a gyhoeddwyd ar gyfer cymwysterau penodol a/neu ddisgrifiadau penodol o gymwysterau.

Byddwn yn hysbysu cyrff dyfarnu pryd y bydd eu cydnabyddiaeth yn dechrau a bydd hyn yn parhau mewn grym oni fydd penderfyniad i ildio cydnabyddiaeth neu ei thynnu'n ôl yn effeithio arni.

Parhau i gydnabod cyrff dyfarnu

Amodau Cydnabod Safonol

O dan Atodlen 3, paragraff 2 o'r Ddeddf (Amodau cydnabod safonol), bydd pob corff a gydnabyddir yn ddarostyngedig i'r Amodau Cydnabod Safonol.¹ Bydd y rhan fwyaf o Amodau Safonol yn gymwys i bob corff dyfarnu ond gellir eu pennu hefyd ar gyfer dibenion gwahanol gan gynnwys drwy gyfeirio at y canlynol:

- disgrifiadau gwahanol o gyrrff dyfarnu
- cymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymwysterau
- amgylchiadau gwahanol lle y dyfernir cymhwyster

¹ Ar hyn o bryd cyhoeddir yr Amodau Safonol fel yr Amodau Cydnabod Safonol Dros Dro.

- disgrifiadau gwahanol o unigolyn y dyfernir cymhwyster iddo.

Diwygio'r Amodau Safonol

Os byddwn yn diwygio'r Amodau Safonol, byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i gyrrff dyfarnu cydnabyddedig er mwyn rhoi amser iddynt gydymffurfio â'r newidiadau. Byddwn yn cyhoeddi'r Amodau Safonol diwygiedig ac yn hysbysu'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Amodau Safonol. Byddwn yn nodi'r dyddiad y daw'r Amodau Safonol newydd neu ddiwygiedig i rym. Bydd angen i gyrrff cydnabyddedig gydymffurfio â'r Amodau Safonol newydd neu ddiwygiedig er mwyn parhau i fodloni'r telerau cydnabod.

Amodau Arbennig

At hynny, gall cydnabod corff dyfarnu fod yn ddarostyngedig i amodau eraill megis "Amodau Arbennig" a nodir gan Cymwysterau Cymru, naill ai pan gydnabyddir y corff neu ar ôl hynny. Gallwn osod Amodau Arbennig ar gorff dyfarnu er mwyn mynd i'r afael â materion penodol sy'n codi neu fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chydymffurfio. Gall Amodau Arbennig fel y'u nodir yn Atodlen 3 (Amodau arbennig y gall cydnabyddiaeth fod yn ddarostyngedig iddynt) gynnwys y canlynol:

- amodau capio ffioedd²
- amodau trosglwyddo³
- amodau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cydymffurfio

Os byddwn yn penderfynu dirymu neu ddiwygio'r Amodau Arbennig, byddwn yn cyhoeddi'r Amodau Arbennig diwygiedig ac yn hysbysu'r cyrff yr effeithir arnynt.

Rheolau ar gyfer Cydnabod Cyrff Dyfarnu

O dan adran 10 o'r Ddeddf (rheolau ynghylch ceisiadau am gydnabyddiaeth) mae'n rhaid i ni wneud a chyhoeddi rheolau ynghylch sut y dylai corff dyfarnu wneud ceisiadau i ni i gael ei gydnabod.

Nod y rheolau hyn yw rhoi eglurder i ymgeisydd ynghylch y canlynol:

- y wybodaeth sydd ei hangen ar Cymwysterau Cymru er mwyn gallu ystyried p'un a ellir cydnabod corff;
- y broses o wneud cais am gydnabyddiaeth.

² Gweler y Polisi Capio Ffioedd am ragor o wybodaeth.

³ Mae amod trosglwyddo yn amod arbennig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu wneud trefniadau i fath o gymhwyster a ddyfernir neu a ddyfarnwyd gan y corff hwnnw gael ei ddyfarnu gan gorff dyfarnu arall.

Mae'r Cod ar gael [yma](#).

Ildio Cydnabyddiaeth a'i Thynnu'n Ôl

Gall cydnabyddiaeth ddod i ben pan fydd corff dyfarnu yn penderfynu ildio cydnabyddiaeth rannol neu lawn neu pan gaiff gydnabyddiaeth corff dyfarnu ei thynnu'n ôl gennym oherwydd ei fethiant i gydymffurfio. Dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol y bydd Cymwysterau Cymru yn tynnu cydnabyddiaeth yn ôl.

Tynnu cydnabyddiaeth yn ôl

Pan fydd corff dyfarnu yn methu â chydymffurfio ag un o amodau cydnabyddiaeth gallwn dynnu cydnabyddiaeth y corff yn ôl mewn perthynas â dyfarnu'r canlynol:

- a) cymhwyster penodol neu ddisgrifiad penodol o gymhwyster; *neu*
- b) bob cymhwyster y cydnabyddir y corff mewn perthynas â'i ddyfarnu.

Mae gan y corff dyfarnu yr hawl i ofyn i Cymwysterau Cymru adolygu unrhyw benderfyniad o'r fath.

Wrth benderfynu a ddylid tynnu cydnabyddiaeth corff yn ôl, byddwn yn gweithredu mewn ffordd sy'n gymesur ac yn briodol i'r achos o ddiffyg cydymffurfio. Mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio gall Cymwysterau Cymru benderfynu defnyddio mwy nag un o'r opsiynau a nodir yn y Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith er mwyn cyflawni ei ganlyniad. Gellir defnyddio'r opsiynau wrth uwchgyfeirio ond ni fwriedir iddynt fod yn arwydd o gamau a ddiffiniwyd. Fel arfer dim ond pan fydd pob opsiwn arall a nodir yn y Polisi Cymryd Camau wedi methu y byddwn yn ystyried tynnu cydnabyddiaeth yn ôl.

Byddwn yn hysbysu cyrff dyfarnu am ein bwriad i dynnu eu cydnabyddiaeth yn ôl, gan nodi pryd a pham rydym yn bwriadu tynnu cydnabyddiaeth am gymhwyster arbennig neu bob cymhwyster a gydnabyddir yn ôl. Bydd yr hysbysiad a roddwn i gyrff dyfarnu sy'n nodi y bydd cydnabyddiaeth yn cael ei thynnu'n ôl hefyd yn eu hysbysu bod ganddynt yr hawl i adolygu'r penderfyniad, y dyddiad y mae'n rhaid gwneud cais am adolygiad yn unol ag ef a'r dyddiad y daw'r penderfyniad hwnnw i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl i rym (os na chyflwynir cais am adolygiad).

Ildio cydnabyddiaeth

O dan atodlen 3, paragraff 17 o'r Ddeddf (ildio cydnabyddiaeth), mae'n rhaid i gorff dyfarnu gyflwyno hysbysiad ildio i Cymwysterau Cymru yn nodi ei benderfyniad i beidio â chael ei gydnabod mwyach am ddyfarnu cymhwyster penodol neu ddisgrifiad

penodol o gymhwyster, neu am bob cymhwyster a gydnabyddir. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi hysbysiad i'r corff a gydnabyddir, ar ôl cael yr hysbysiad ildio, yn nodi na fydd y corff hwnnw yn cael ei gydnabod mwyach yn hynny o beth a bydd yn cynnwys y dyddiad dod i ben fel y'i nodir yn yr hysbysiad ildio neu ddyddiad y mae Cymwysterau Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

Trefniadau trosiannol

Cyn i ni gytuno â'r cais i ildio cydnabyddiaeth neu'n mynd ati i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl, byddwn yn ystyried yr angen i osgoi effeithio ar bobl sy'n ceisio cael y math o gymhwyster dan sylw neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt geisio ei gael. Yn amodol ar hyn byddwn wedyn yn cytuno ar ddyddiad ildio priodol â'r corff dyfarnu.

Dogfennau Perthnasol

Dylid darllen y dogfennau canlynol ar y cyd â'r polisi hwn:

- [Meini Prawf ar gyfer Cydnabod Corff](#)
- [Amodau Cydnabod Safonol](#)
- [Meini prawf cymeradwyo; Meini prawf ar gyfer dynodi cymhwyster; Amodau Cymeradwyo; a Darpariaethau pellach ynghylch dynodi](#)
- [Polisi apeliadau rheoliadol](#)
- [Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith](#)
- [Polisi Capio Ffioedd.](#)